OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2021 Rhif 702 (Cy. 176)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 1 (Cylchfan Kingsland), Caergybi i Gyffordd 6 (Tyrpeg Nant), Ynys Môn) (Gwahardd Traffig Dros Dro) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *11 Mehefin 2021* |
| *Yn dod i rym* | *16 Mehefin 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 1 (Cylchfan Kingsland), Caergybi i Gyffordd 6 (Tyrpeg Nant), Ynys Môn) (Gwahardd Traffig Dros Dro) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 16 Mehefin 2021.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 19:00 o'r

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

gloch ar 16 Mehefin 2021 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A55 Llundain i Gaergybi.

**Gwaharddiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**6.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, farchogaeth ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**7.** Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, wrth weithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 11 Mehefin 2021

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLEN

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ddwyreiniol Cylchfan Kingsland, Caergybi (Cyffordd 1) hyd at bwynt 280 o fetrau i'r dwyrain o Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Tŷ Mawr), gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r dwyrain a'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 1 a'r ffordd ymadael tua'r

dwyrain a’r ffordd ymuno tua’r gorllewin wrth Gyffordd 2.

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 270 o fetrau i’r gorllewin o Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Tŷ Mawr) hyd at bwynt 330 o fetrau i’r dwyrain o Gyffordd 3 (Cyfnewidfa Pencaledog), gan gynnwys y ffordd ymuno tua’r dwyrain a’r ffordd ymadael tua’r gorllewin wrth Gyffordd 2 a’r ffordd ymadael tua’r dwyrain a’r ffordd ymuno tua’r gorllewin wrth Gyffordd 3.

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 300 metr i’r gorllewin o Gyffordd 3 (Cyfnewidfa Pencaledog) hyd at bwynt 280 o fetrau i’r dwyrain o Gyffordd 4 (Cyfnewidfa Dalar Hir), gan gynnwys y ffordd ymuno tua’r dwyrain a’r ffordd ymadael tua’r gorllewin wrth Gyffordd 3 a’r ffordd ymadael tua’r dwyrain a’r ffordd ymuno tua’r gorllewin wrth Gyffordd 4.

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 320 o fetrau i’r gorllewin o Gyffordd 4 (Cyfnewidfa Dalar Hir) hyd at bwynt 270 o fetrau i’r dwyrain o Gyffordd 5 (Cyfnewidfa Treban), gan gynnwys y ffordd ymuno tua’r dwyrain a’r ffordd ymadael tua’r gorllewin wrth Gyffordd 4 a’r ffordd ymadael tua’r dwyrain a’r ffordd ymuno tua’r gorllewin wrth Gyffordd 5.

Y darn o gerbytffordd tua’r gorllewin y gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 370 o fetrau i’r dwyrain o Gyffordd 6 (Tyrpeg Nant) hyd at bwynt 270 o fetrau i’r gorllewin o Gyffordd 5 (Cyfnewidfa Treban), gan gynnwys y ffordd ymuno tua’r gorllewin wrth Gyffordd 6.